**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Fonesig Rosemary Butler DME, AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

6 Mehefin 2014

Annwyl Rosemary

**Araith y Frenhines 2014**

Cyhoeddodd Ei Mawrhydi y Frenhines raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2014-2015 yn Ei Haraith i Ddau Dŷ'r Senedd ar 4 Mehefin. Dymunaf roi gwybod ichi am oblygiadau disgwyliedig y rhaglen ddeddfwriaethol arfaethedig ar gyfer busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Drwy ysgrifennu atoch, rwy'n cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol "Ymchwiliad i'r pwerau a ganiateir i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU 2012".

Mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i nodi ac amddiffyn buddiannau Cymru yn neddfwriaeth y DU. Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth y DU i wneud yn siŵr hyd eithaf ein gallu bod deddfwriaeth San Steffan yn ystyried buddiannau Cymru, a'i bod yn dilyn y Canllawiau ar Ddatganoli a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r Cynulliad ddylai lunio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig fel arfer. Ond fel yr oedd tystiolaeth Prif Weinidog Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn 2012 yn ei egluro, ceir amgylchiadau pan fo'n ddoeth ac yn fanteisiol cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru, a fyddai fel arall o fewn cymhwysedd y Cynulliad, ym Miliau Senedd y DU. Mewn achosion o'r fath, bydd Llywodraeth y DU, wrth ddeddfu ar y materion hyn yng Nghymru, yn gofyn caniatâd y Cynulliad drwy gyfrwng Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a roddir gerbron y Cynulliad, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cyhoeddwyd yn Araith y Frenhines fod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno 11 Bil newydd ac un Bil drafft ym Mhedwaredd Sesiwn y Senedd. Mae dau Fil drafft pellach hefyd wedi'u cynnwys yn y rhaglen. Mae rhai o'r Biliau hyn bellach wedi'u cyflwyno, a bydd eraill ar gamau datblygu gwahanol. Mae hyn yn golygu bod ein dealltwriaeth o'r darpariaethau arfaethedig yn amrywio o un Bil i'r llall; mae'n gwaith cyfathrebu gyda Llywodraeth y DU yn amrywio o ran Biliau unigol gan ddibynnu i ba raddau y mae darpariaethau'r Biliau hynny o fewn meysydd cymhwysedd datganoledig neu'n codi materion trawsffiniol. Ar ben hynny, os nad yw Biliau wedi'u cyhoeddi eto, mae cyfyngiadau arnom o ran yr hyn y gallwn ei ddatgan ar hyn o bryd oherwydd cyfrinachedd y cysylltiadau rhynglywodraethol.

Wedi dweud hynny, gallaf rannu gyda chi ein hasesiad cychwynnol o'r cynigion deddfwriaethol o ran eu goblygiadau ar faterion datganoledig a'r angen posibl am ganiatâd y Cynulliad.

Bydd amryw o'r Biliau yn gymwys i Gymru ac yn cael effaith yng Nghymru mewn meysydd polisi nad ydynt wedi'u datganoli, sy'n golygu nad oes angen caniatâd y Cynulliad. Yn yr achosion hynny, byddwn yn ystyried yr effaith ar Gymru ac yn rhoi sylwadau i Lywodraeth y DU yn ôl y gofyn.

Bydd rhai Biliau yn gwneud darpariaeth yn ymwneud â Chymru sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad, sy'n golygu y bydd angen rhoi Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n amcangyfrif y bydd dau neu dri Bil yn cynnwys darpariaethau o'r fath, ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod. Byddwn yn cadw golwg ar yr angen am ganiatâd, a gallai'r sefyllfa newid pan fyddwn wedi cael cyfle i graffu ar destunau'r Biliau unigol ac wrth i fanylion Biliau pellach gael eu cadarnhau.

Yn achos Biliau drafft, bydd cyfle wrth gwrs i'r Cynulliad ystyried eu darpariaethau yn fanwl yn ystod y cyfnod craffu cyn y broses ddeddfu, a chyfrannu at gynnwys y darpariaethau sy'n effeithio ar Gymru cyn i bob Bil gael ei gyflwyno.

**Y Bil Seilwaith**
Mae amcanion Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil hwn yn cynnwys rhoi hwb i fuddsoddi mewn seilwaith, diwygio'r gyfraith gynllunio i wella cystadleurwydd economaidd a gwella annibyniaeth a diogelwch ynni. Bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â Lloegr yn unig, ond bydd nifer o gynigion yn berthnasol i Gymru a chanddynt oblygiadau i Gymru, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â rôl y Gofrestrfa Tir a mesurau i ddelio â rhywogaethau estron goresgynnol. Mae cynigion Llywodraeth y DU i gefnogi datblygiad nwy ac olew o ynni siâl a geothermol, drwy wneud darpariaethau ar gyfer y drefn o fynediad tanddaearol, yn dal i fod yn destun ymgynghoriad. Mae hwn yn fil cynhwysfawr ac rydym yn disgwyl y bydd Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ofynnol ar gyfer rhai agweddau arno.

**Y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth**
Mae Llywodraeth y DU wedi dweud mai ei amcanion ar gyfer y Bil hwn yw creu cyfleoedd newydd fel y gall busnesau bach dyfu ac arloesi, a helpu i sicrhau bod y DU yn cael ei chydnabod yn fyd-eang fel man teg i wneud busnes. Mae'n fil cynhwysfawr. Rydyn ni o'r farn ei bod yn debygol iawn y bydd angen Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol mewn perthynas â nifer o'r darpariaethau yn y Bil.

**Y Bil Troseddau Difrifol**
Mae'r Bil hwn yn ymwneud â threfniadau i fynd i'r afael â throseddau difrifol a disgwylir y bydd yn berthnasol i Gymru yn yr un modd â Lloegr. Er ei bod yn annhebygol y bydd angen Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol ar gyfer y rhan fwyaf o'r Bil, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i rai meysydd penodol er mwyn penderfynu a oes angen Cynnig Cymhwysedd Deddfwriaethol.

**Amseru**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno unrhyw Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol angenrheidiol cyn gynted â phosibl fel y gellir craffu arnynt yn briodol, cyn i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu rhoi ei gydsyniad neu beidio. Yn ddelfrydol dylai pob mater yn ymwneud â chydsyniad fod wedi'i ystyried erbyn i'r Bil gyrraedd y cam gwelliannau terfynol, wrth gael ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin am y tro cyntaf. Fodd bynnag, mae achosion bob amser lle mae'n anorfod y bydd gwelliannau i'r Biliau yn cael eu cyflwyno'n hwyr yn y broses Seneddol. O dan yr amgylchiadau hynny byddwn yn ceisio sicrhau y bydd unrhyw welliannau sydd â goblygiadau i'r Cynulliad, o ran cydsyniad, yn cael eu dwyn i sylw'r Cynulliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny.

Wrth i gynnwys manwl Biliau arfaethedig Llywodraeth y DU ddod yn eglur, mae'n debygol y byddwn yn nodi meysydd ychwanegol lle mae'n gwneud synnwyr i ddeddfu mewn Bil y DU, neu'n nodi darpariaethau sy'n rhannol neu'n llwyr berthnasol i gymhwysedd y Cynulliad sy'n golygu, felly, fod angen ei gydsyniad. Efallai y bydd Biliau pellach yn cael eu cyflwyno, gan gynnwys Biliau Aelodau Preifat y gall fod angen Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol arnynt. Bydd unrhyw gynigion ychwanegol o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw welliannau perthnasol i Filiau Llywodraeth y DU, yn cael eu dwyn i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddynt ymddangos.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth y DU yn rheolaidd i'r Pwyllgor Busnes, i'r graddau y mae'n effeithio ar Fusnes y Cynulliad wrth i'r sesiwn Seneddol newydd fynd yn ei blaen.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business